CLECS O'R CLYBIAU

Diwrnod lwcus iawn oedd Mehefin 13eg eleni i'r Clybiau Gwawr a nifer o aelodau'n canghennau wrth iddyn nhw ymuno ar Deithiau Cerdded noddedig, oherwydd daeth niferoedd parchus iawn ynghyd ac roedd y tywydd yn braf iawn! Codi arian ar gyfer Gofal Cancr y Fron Cymru ac i'r mudiad ei hun, sy'n elusen gofrestredig hefyd, oedd y nod, ac mae'r argoelion yn dda am gefnogaeth arbennig i'r ddau achos. Gyda'r cyfraniad at Gofal Cancr y Fron Cymru bwriedir ariannu cyfieithiad Cymraeg o'r stori *Mummy's Lump,* a ddosberthir i deuluoedd pan fo mam ifanc yn cael diagnosis o gancr y fron. Bellach mae'r gwaith o gyfieithu'r gyfrol ar y gweill a gobeithiwn y bydd wedi'i chyhoeddi, ac yn cael ei dosbarthu yn ôl yr angen, yn fuan iawn. Mae 8,000 o ferched dan 50 oed yn cael diagnosis o'r fath yn y DU bob blwyddyn. Fe sylwch ar y rhubanau lafant mae'r merched yn eu gwisgo – yn arwydd eu bod yn cefnogi Ymddiriedolaeth Lafant, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o gancr y fron ymhlith menywod ifanc. Diolch yn fawr i bawb fu'n cymryd rhan.

Aelodau lliwgar Clybiau Gwawr a changhennau'r de cyn dechrau ar eu taith trwy Barc Gwledig Pen-bre.

Aelodau Clybiau Gwawr a changhennau'r gogledd yng Nghanolfan Cywain y Bala, cyn teithio ar y trên i Lanuwchllyn a cherdded yn ôl i Cywain. Llun/Evan L. Dobson